**Hysbysiad Preifatrwydd Comisiwn y Senedd – Cofrestr Arbenigwyr COVID-19 yng Nghymru**

Mae’r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn nodi sut mae Gwasanaeth Ymchwil Comisiwn y Senedd (Ymchwil y Senedd) yn casglu ac yn defnyddio’r wybodaeth rydych chi’n ei darparu.

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw rheolydd data’r wybodaeth a roddir gennych, a bydd yn sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei diogelu a’i defnyddio'n unol â deddfwriaeth diogelu data.

Gellir rhannu eich data â Llywodraeth Cymru a bydd ei Hysbysiadau Preifatrwydd ei hun yn dweud wrthych sut y bydd yn defnyddio eich data. Byddant yn defnyddio’r wybodaeth i nodi a chysylltu ag unigolion a allai eu cynorthwyo gyda’u gwaith eu hunain wrth ddelio â’r pandemig.

**<u>Ein Manylion Cyswllt</u>**
Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut y bydd y gofrestr yn gweithio, cysylltwch â Hannah Johnson Hannah.Johnson@senedd.cymru.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau diogelu data at y Swyddog Diogelu Data:
Diogelu.Data@senedd.cymru
0300 200 6565

**<u>Gwybodaeth – beth, pam, ble, sut?</u>**

**Beth yw’r data?**
Mae Ymchwil y Senedd yn llunio cofrestr o academyddion y bydd galw arnynt, yn ôl yr angen, i ddarparu gwybodaeth arbenigol ynghylch pandemig COVID-19 a’i effeithiau, gan ganolbwyntio’n benodol ar Gymru. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cynnwys enw, manylion cyswllt, gallu o ran y Gymraeg a manylion arbenigedd a rôl y rhai sy'n dymuno bod ar y gofrestr.

**Pam ydym yn eu casglu?**
Rydym yn casglu’r wybodaeth hon er mwyn darparu arbenigedd i staff y Senedd, Aelodau o’r Senedd, a Staff Cymorth Aelod mewn perthynas â phandemig COVID-19 ac i ofyn am farn o ran y prif faterion sy’n ymwneud á’r pandemig i Gymru.

Gallem hefyd ddefnyddio’r wybodaeth hon i’ch hysbysu am hynt Busnes y Senedd sy’n ymwneud â’r pandemig.

**Pwy sy’n casglu ac yn defnyddio’r data?**
Mae’r data yn cael ei gasglu gan Ymchwil y Senedd a gall staff eraill Comisiwn y Senedd, Aelodau o’r Senedd a staff cymorth Aelodau’r ei ddefnyddio.

**A fydd yn cael ei rannu neu ei gyhoeddi?**
Mae’n bosibl y bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei rhannu â swyddogion Llywodraeth Cymru at yr unig bwrpas o ymateb i’r pandemig COVID-19. Byddant yn defnyddio’r wybodaeth i nodi a chysylltu ag unigolion a allai eu cynorthwyo gyda’u gwaith wrth ddelio â’r pandemig. Bydd gan Lywodraeth Cymru ei Hysbysiad Preifatrwydd ei hun i ymdrin â hyn a byddem yn argymell eich bod yn ei ddarllen i ddysgu sut y gallai ddefnyddio’ch gwybodaeth.

**Ble y bydd y data yn cael eu storio?**
Bydd y Comisiwn yn storio eich gwybodaeth yn ddiogel ar ein systemau TGCh. Mae ein system TGCh yn cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft. Mae unrhyw drosglwyddiad data gan Microsoft y tu allan i'r AEE wedi'i gwmpasu gan gymalau contract sy'n golygu y bydd Microsoft yn sicrhau y caiff data personol eu trin yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd.

**Am ba mor hir y caiff ei storio?**
Pan ddarperir gwybodaeth bersonol, bydd y data personol yn cael ei gadw cyhyd â bod Cofrestr Arbenigwyr COVID-19 yn parhau i fod yn weithredol, a disgwylir i hynny fod trwy gydol y pandemig COVID-19 ac am gyfnod o amser ar ôl hynny er mwyn caniatáu i unrhyw ymchwiliadau ar y gweill neu ffrydiau gwaith gael eu cwblhau. Yn dilyn hyn, bydd y wybodaeth sydd wedi’i chasglu a’i chadw yn cael ei dileu yn ddiogel gan Gomisiwn y Senedd.

Gallwch ofyn am gael gwared â’ch gwybodaeth unrhyw bryd.

**<u>Eich hawliau</u>**

Mae gennych hawliau penodol dros y wybodaeth rydym yn ei dal. I grynhoi, mae’r hawliau yn cynnwys:

- Yr hawl i gael gwybod am sut y defnyddir eich gwybodaeth bersonol;
- Yr hawl i gael mynediad at gopïau o'ch gwybodaeth bersonol;
- Yr hawl i gywiro os yw eich gwybodaeth yn anghywir;
- Yr hawl i ddileu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau;
- Yr hawl i gyfyngu ar ein defnydd o’ch gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau;
- Yr hawl i wrthwynebu'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau.

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, anfonwch e-bost at ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru.

**Ein seiliau cyfreithiol ar gyfer casglu, dal a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol**

Mae cyfraith diogelu data yn nodi seiliau cyfreithiol amrywiol (neu 'amodau') sy'n caniatáu i ni gasglu, dal a defnyddio eich gwybodaeth bersonol, sef:

Rydym o'r farn bod angen casglu a defnyddio eich gwybodaeth er mwyn ein helpu i gael gafael ar wybodaeth arbenigol i gynghori Aelodau a staff y Senedd ar y feirws a'i oblygiadau; helpu gyda swyddogaethau craffu a deddfwriaethol; galluogi Aelodau i gynrychioli eu hetholwyr; ac i gasglu barn ar y materion allweddol sy'n wynebu Cymru. O'r herwydd, bydd y Comisiwn yn dibynnu ar y sail gyfreithiol ganlynol:

**Mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd yn unol ag Erthygl 6(1)(e) o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a ddarllenir ynghyd ag adran 8(d) o Ddeddf Diogelu Data 2018.**

**Ceisiadau am wybodaeth a wneir i'r Comisiwn**

Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych yn llawn neu'n rhannol. Dim ond os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith y byddwn yn gwneud hynny.

**Sut i gwyno**

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth, cysylltwch â ni ar y manylion uchod.

Gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os ydych chi'n anhapus â sut rydyn ni wedi defnyddio eich data.
Cyfeiriad yr ICO yw:
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Rhif y llinell gymorth: 0303 123 1113